# Beth yw syndromau Ehlers-Danlos?

EDS**UK**

**Grw^p o anhwylderau genetig sy'n effeithio ar feinwe gyswllt yw'r syndromau Ehlers-Danlos. Mae eu symptomau'n effeithio ar y corff cyfan.**

Maent yn achosi heriau i iechyd corfforol a meddyliol. Mae'r symptomau'n eang ac yn gallu achosi anabledd. Mae un o'r mathau prin yn lleihau disgwyliad oes yn sylweddol. Mae gan anhwylderau'r sbectrwm gorsymudedd (HSD) symptomau tebyg i'r math mwyaf cyffredin o syndrom Ehlers-Danlos, sef y math gorsymudol. Mae'n bosib fod pobl sydd bellach wedi cael diagnosis o HSD wedi cael eu hystyried yn bobl â syndrom Ehlers-Danlos yn y gorffennol.

**13 mathau**

**Mae 13 math dosbarthedig o syndromau Ehlers-Danlos (EDS), ac mae 12 ohonynt yn brin.**

Mae EDS hypersymudol (hEDS) yn llawer mwy cyffredin nag a feddyliwyd yn flaenorol.

**10 mlynedd**

**Yr amser cyfartalog i gael diagnosis yn y DU yw deng mlynedd.**

Mae siawns o 25-75% y bydd y cyflwr yn cael ei drosglwyddo i blant, yn dibynnu ar y math.

**Hanes teuluol a geneteg**


Mae syndromau Ehlers-Danlos yn gyflyrau genetig, sy'n golygu eu bod yn gallu cael eu trosglwyddo i blant.

**Mae siawns o 25-75% y bydd y cyflwr yn cael ei drosglwyddo i blant, yn dibynnu ar y math.**

Gall person hefyd gael EDS heb hanes teuluol. Nid oes prawf genetig ar gyfer hEDS.

## Symptomau

Mae symptomau'r mathau mwyaf cyffredin yn cynnwys:



- **Gorflinder**
- **Poen cronig**
- **Anhawster rheoli pwysedd gwaed**
- **Problemau system dreulio, coluddyn a phledren**
- **Prolaps organau**
- **Croen bregus, hawdd ei ymestyn, sy'n cael ei niweidio'n hawdd**
- **Cymalau llac, sy'n dod o'u lle yn hawdd**

Mae gan y mathau prinnach arwyddion a symptomau neilltuol ychwanegol.

## Cefnogaeth

**Llais y gymuned EDS a HSD yn y DU yw Ehlers-Danlos Support UK.** Rydym yn dod â phobl ag EDS a HSD yn y DU ynghyd i gael mynediad teg at ddiagnosis, triniaeth a gofal. Rydym yn gwneud hyn drwy:

**Ymwybyddiaeth**: Rydym yn eirioli dros ac yn grymuso ein cymuned i yrru newid. Rydym yn codi eu lleisiau, ac yn gweithio gyda'r GIG ledled y DU i sicrhau gwasanaethau sydd ar gael i bawb. **Cymorth**: Rydym yn darparu platfform i gefnogi a chysylltu ein cymuned. Rydym yn darparu gwybodaeth a chyngor ar fyw gydag EDS a HSD. **Gwybodaeth**: Rydym yn adeiladu adnabyddiaeth trwy wybodaeth, hyfforddiant ac ymchwil galluogol. Rydym yn wynebu camddealltwriaeth ac yn herio anghydraddoldeb.

Ffoniwch y llinell gyngor **0800 907 8518** neu e-bost **adviceline@ehlers-danlos.uk**

Dilynwch ni ar **@ehlersdanlosuk** **@ehlersdanlossupportuk**

Ymwelwch â ni yn **ehlers-danlos.uk**

Elusen yw Ehlers-Danlos Support UK a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr (Rhif 11571027) ac yn yr Alban (SCO46712)
Cwmni Cofrestredig Rhif 8924646. Cyfeiriad Cofrestredig: EDS UK, International House, 66 Lavender Hill, London, SW11 5RQ

Cymraeg/ Welsh